Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



# Swyddog Cefnogi Amgylcheddol

## Yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd

**Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd**

# Cynnwys

Croeso gan Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol . 3
Pwy ydym ni. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 4
Gogledd Cymru; Lle i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef 6
Y Swydd. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 7
Beth allwn ni ei gynnig i chi . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 8
Disgrifiad Swydd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9
Manyleb y Person . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 12
Sgiliau Cymraeg . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 14
Llinell Amser Recriwtio. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 15
Sut i Wneud Cais. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 15



# Croeso gan Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol



Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys ac er bod hyn yn wir, mae'r swyddi a'r cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynd yn llawer pellach na'r ddelwedd draddodiadol hon.

Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi pobl mewn amrywiaeth o rolau amrywiol a heriol, ac mae'r gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud y tu ôl i'r llenni yr un mor hanfodol i helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef.

Mae ein sefydliad yn cynnwys pobl sy'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r Gwasanaeth i gyflawni eu hamcanion mewn perthynas â ffactorau amgylcheddol a newid hinsawdd.

Mae'r tîm Amgylcheddol yn gyfrifol am fonitro a lleihau effaith amgylcheddol y Gwasanaeth, sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, hyrwyddo arferion cynaliadwy, a chefnogi prosiectau sy'n ein helpu i gyflawni ein nodau uchelgeisiol ar gyfer lleihau allyriadau carbon a gwella perfformiad amgylcheddol.

Mae rôl Swyddog Cefnogi Amgylcheddol mewn gwasanaeth brys rheng flaen yn ddeinamig, amrywiol a gwerth chweil. Mae'n cynnwys cefnogi prosiectau allweddol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd, rheoli data ac adrodd, cynorthwyo gydag archwiliadau ac arolygiadau, a rhoi cyngor ac arweiniad i gydweithwyr ar draws y sefydliad. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i wella ei berfformiad amgylcheddol tra'n amddiffyn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Ydy hyn yn swnio'n ddiddorol? Rydym yn chwilio am Swyddog Cefnogi Amgylcheddol i ymuno â'n tîm a'n helpu i gyflawni ein hymrwymiadau amgylcheddol.

# Pwy ydym ni

Diben Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw Atal, Amddiffyn, ac Ymateb. I wneud hyn, rydym yn cyflogi dros 850 o staff mewn swyddi gweithredol a chefnogol.

Rydym yn helpu i ddiogelu ardal o ryw 2,400 milltir sgwâr, sydd â phoblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl yn ogystal â channoedd o filoedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydym yn mynd i tua 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau nad ydynt yn danau, fel gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a llifogydd, bob blwyddyn. Rydym hefyd yn ymateb i tua 2,000 o alwadau brys sy'n alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith helaeth i atal tân, a hynny trwy ymweld â phobl yn eu cartrefi, mynd i ddigwyddiadau, ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu ac i hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb prysur yn y cyfryngau, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rhan arall o'n gwaith yw rôl gorfodi diogelwch tân, felly rydym yn ymweld â busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol am y safleoedd hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tân at y safon ofynnol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio ynddo. Mae yma ddiwylliant cefnogol ac rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.




Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf.

Am fwy o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

# Ein Gwerthoedd Craidd

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.



# Gogledd Cymru; Lle i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef

Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych yn chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y Deyrnas Unedig, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae rhywbeth i bawb ei fwynhau. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n fawr at yr economi leol gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu'r gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn, o linellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr i deithiau cerdded mwy hamddenol i archwilio trefi a chefn gwlad neu ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Tra bod Gogledd Cymru yn agos at natur ac â mannau agored cyfagos, y mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr yng Ngogledd-Orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y Deyrnas Unedig, gyda threnau uniongyrchol i Lundain (mewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Mae digonedd o leoedd bwyta yn defnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, gan gynnwys pysgod sydd newydd eu dal, cig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, gyda rhywbeth i weddu i bawb, gan gynnwys bwytai ysblennydd, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r Cymry'n llawn angerdd am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae Eisteddfodau sy'n llawn cerddoriaeth, barddoniaeth a chelf yn cael eu cynnal yn flynyddol. Maent yn cynnig llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n gynhwysol i bawb felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i allu ymweld a mwynhau'r diwrnod. Anogir pobl o bob oed a gallu, gan gynnwys dysgwyr Cymraeg, i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gyda'r Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen yn cael ei chynnal yn flynyddol ym mis Gorffennaf, gan ddod â chyfranogwyr o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a'r celfyddydau mewn un lle.

# Y Swydd

Yn dilyn mabwysiadu cynlluniau datgarboneiddio fflyd, gwresogi a phŵer mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn gwahodd ceisiadau am swydd Swyddog Cefnogi Amgylcheddol.

Mae'r rôl hon yn rhoi cyfle unigryw i weithio ar flaen y gad o ran mentrau amgylcheddol a chynaliadwyedd o fewn gwasanaeth brys mawr, deinamig. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i gyflawni rhaglenni amgylcheddol allweddol, mentrau cydymffurfio, a phrosiectau strategol gyda'r nod o leihau effaith amgylcheddol y Gwasanaeth.

Mae cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys cydlynu prosiectau, casglu a dadansoddi data, cyfrifo carbon, mentrau teithio cynaliadwy, ymgysylltu â budd-ddeiliad, ymweliadau â safleoedd ac archwiliadau, cyfarfodydd ac adrodd gyda gwelliant parhaus trwy gyfrannu syniadau a chefnogi mentrau i wella perfformiad amgylcheddol, diwylliant cynaliadwyedd, a chydymffurfiaeth reoleiddiol y Gwasanaeth.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol ddiddordeb mawr mewn rheolaeth amgylcheddol, cynaliadwyedd a gweithredu ar yr hinsawdd. Mae sgiliau trefnu a chyfathrebu rhagorol yn hanfodol, ynghyd â'r gallu i reoli nifer o brosiectau a chydweithio'n effeithiol â chydweithwyr a budd-ddeiliad. Mae profiad blaenorol mewn dadansoddi data amgylcheddol, cyfrifo carbon, neu gefnogi prosiectau cynaliadwyedd yn ddymunol iawn.



Mae hon yn rôl amrywiol a diddorol, sy'n cynnig y cyfle i gyfrannu'n uniongyrchol at nodau amgylcheddol strategol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a gwneud effaith amlwg ar gynaliadwyedd ar draws ardal y Gwasanaeth.

# Beth allwn ni ei gynnig i chi

## Cyflog

Graddfa 05
Cyflog Sylfaenol: Dechrau ar £29,064 y flwyddyn, gan godi i £31,022 y flwyddyn.
Contract tymor penodol 18 mis.

## Lleoliad gwaith

Canolfan y swydd yw'r Pencadlys yn Llanelwy, gyda'r cyfle i wneud rhywfaint o waith o bell neu o leoliadau eraill y gwasanaeth tân.

Rydym yn cynnig llawer iawn o hyblygrwydd ac rydym yn ceisio cefnogi staff i gydbwyso eu gwaith a'u bywyd cartref gymaint â phosibl. Mae gennym bolisi gweithio ystwyth i hwyluso gweithio rhithwir a gweithio gartref lle bo hynny'n ymarferol ar gyfer y swydd, a gellir trafod hyn ymhellach yn ystod y cyfweliad.

## Oriau gwaith

Mae'r swydd hon yn seiliedig ar weithio 37 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae'n gontract cyfnod penodol o 18 mis.

## Buddion y swydd

- Hawl gwyliau blynyddol hael, yn dechrau ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â gwyliau cyhoeddus
- Cynllun Oriau Hyblyg sy'n galluogi staff i weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad at Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y mae'r cyflogwr yn cyfrannu ato
- Byddwn yn rhoi hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i chi er mwyn datblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithwyr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapïau corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Amrywiaeth o fuddion ychwanegol megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad at ostyngiadau gan gannoedd o fanwerthwyr a darparwyr hamdden a gwasanaethau.

# Disgrifiad Swydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Swyddog Cefnogi Amgylcheddol | | |
| **Adran** | Gweithrediadau Technegol | **Dyddiad** | 16/04/25 |
| **Yn atebol i** | Rheolwr Yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd | **Graddfa Cyflog** | Gradd 5 |
| **Lleoliad** | Hybrid | **Oriau'r wythnos** | 37 |

## Diben y Swydd yn Gyffredinol

Cefnogi Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i gyflawni amcanion amgylcheddol y Gwasanaeth. Bydd y rôl yn canolbwyntio ar reoli data amgylcheddol yn effeithiol, gweinyddu'r System Rheoli Amgylcheddol, a chymorth i brosiectau amgylcheddol allweddol a mentrau cydymffurfio, gan gynnwys cyfrifyddu carbon a'r Siarter Teithio Llesol.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Cynorthwyo Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i olrhain eu llwyth gwaith o ddydd i ddydd a sicrhau cynnydd prosiectau amgylcheddol
2. Datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda budd-ddeiliaid, gan gynnwys uwch reolwyr, timau prosiect a gweithwyr.
3. Casglu ac adrodd yn fisol am y defnydd o ynni ar safleoedd gyda mesuryddion nad ydynt yn rhai awtomatig
4. Tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r System Rheoli Amgylcheddol
5. Gweithio gyda Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i gynnal archwiliadau dilysu mewnol fel sy'n ofynnol gan y System Rheoli Amgylcheddol
6. Cefnogi hwyluso cyfarfodydd amrywiol dan gadeiryddiaeth Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, gyda mynychwyr mewnol ac allanol.

7. Cynorthwyo Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i reoli prosiectau amgylcheddol, gan gynghori ar bob cam o gylch bywyd y prosiect, ffactorau llwyddiant critigol, dadansoddiad risg, cynlluniau adnoddau ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid. Datrys problemau a sefyllfaoedd gyda phrosiectau gan ddefnyddio'u barn eu hunain lle bo hynny'n briodol.

8. Creu a chynnal cynlluniau i gefnogi aliniad parhaus rhaglenni a phrosiectau ag amcanion a thargedau strategol

9. Sicrhau monitro cynlluniau prosiectau/rhaglenni a rhoi gwybod am oedi ar dasgau a chymryd camau angenrheidiol i rybuddio budd-ddeiliad allweddol.

10. Cysylltu rhwng timau prosiect a'r Swyddfa Rheoli Prosiectau i sicrhau defnydd priodol o fframwaith Rheoli Prosiectau GTAGC.

11. Casglu data perthnasol gan adrannau eraill yn ôl yr angen i gynorthwyo Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i baratoi cyfrifyddu carbon blynyddol. Bydd hyn yn cynnwys trin gwybodaeth gymhleth a sensitif o wahanol adrannau a defnyddio barn eich hun i ddewis/gwrthod gwybodaeth sy'n gwrthdaro o wahanol ffynonellau.

12. Cynorthwyo i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru

13. Mynd i gyfarfodydd mewnol ac allanol ar ran Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd yn ôl yr angen, gan gynnwys teithio o fewn ardal y Gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys mynd i a chefnogi byrddau rhaglenni neu brosiectau, grwpiau, cyfarfodydd sicrhau prosiectau ac adolygu ansawdd yn ôl yr angen.

14. Tasgau gweinyddu cyllid sy'n ymwneud â phrosiectau amgylcheddol gan gynnwys codi archebion prynu, paratoi derbynebau am nwyddau a gwasanaethau, cyfarwyddo anfonebau sy'n dod i mewn, a chynorthwyo gyda gweinyddu ceisiadau grant.

## Cyfrifoldeb Goruchwylio

Dim

## Cyfrifoldeb Ariannol

Dim

## Cysylltiadau y tu Allan i'w His-adran eu Hunain

Cyswllt rheolaidd ag adrannau a phersonél eraill ledled y Gwasanaeth

Cyswllt â budd-ddeiliaid allanol y prosiect gan gynnwys contractwyr, cyflenwyr a chyrff statudol

## Gofynion Iaith

Cymraeg Lefel 2 (i'w gyflawni o fewn cyfnod prawf) – Yn gofyn eich bod yn gallu; Deall hanfod sgyrsiau yn y gwaith. Ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â'r swydd cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml. Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml.

## Camau Gwirio Cyn Cyflogi / Gofynion Penodol

DBS Safonol

## Hyfforddiant Gorfodol

Dim, fodd bynnag efallai y bydd cyfleoedd prentisiaeth ar gael i gefnogi ymgeiswyr i ddatblygu eu sgiliau rheoli prosiect fesul achos

## Arall

Wedi'i lleoli yn y swyddfa yn bennaf ond gyda gofyniad i fynd i lleoliadau neu safleoedd gwasanaeth. Gall hyn olygu gweithio yn yr awyr agored am gyfnodau hir mewn amodau annymunol.

# Manyleb y Person

## Cymwysterau, Gwybodaeth a Phrofiad

| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| --- |
| Cymhwyster Lefel 3 cydnabyddedig (neu uwch) mewn busnes, cyllid, rheoli prosiectau neu bwnc tebyg |
| Profiad amlwg mewn rôl weinyddol neu gefnogi prosiect |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy’n bodloni’r holl feini prawf hanfodol |
| Profiad o gefnogi prosiectau datgarboneiddio’r sector cyhoeddus |
| Profiad blaenorol o weithio i wasanaeth argyfwng |
| Profiad o ymdrin â budd-ddeiliaid y prosiect |

## Sgiliau a Galluoedd

| |
|---|
| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| Dealltwriaeth o weithrediadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Diddordeb brwd mewn materion amgylcheddol |
| Yn gallu defnyddio meddalwedd Microsoft Office (Word, Excel, Outlook ac ati) yn fedrus |
| Yn gallu cyfathrebu'n hyderus â budd-ddeiliaid y prosiect ar bob lefel |
| Sgiliau llythrennedd a rhifedd rhagorol, gyda sylw cryf i fanylion a'r gallu i gynhyrchu dogfennaeth o ansawdd uchel ar gyfer adrodd. |
| Sgiliau dadansoddi a datrys problemau rhagorol a'r gallu i flaenoriaethu llwyth gwaith. |
| Gweithredu ar eich menter eich hun, yn aml yn gweithio'n annibynnol, bod yn rhagweithiol ac yn barod i weithio o dan oruchwyliaeth gyfyngedig i gyflawni amcanion |
| Meddu ar a chynnal trwydded yrru lawn gyfredol yn y DU |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy’n bodloni’r holl feini prawf hanfodol |
| Gweithio gyda methodolegau Rheoli Prosiect sefydledig (PRINCE2, Ystwyth, Lean Six Sigma ac ati) |

# Sgiliau Cymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo ein bod wedi cymryd mater yr iaith o ddifrif ers blynyddoedd lawer. Wrth gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a chwrdd â disgwyliadau'r gymuned leol, rydym hefyd yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r Gwasanaeth yn sgil cynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae arbed bywydau a lleihau risg yn rhan ganolog o'n cenhadaeth ac mae mater yr iaith yn hanfodol i lwyddiant ein cenhadaeth.

Ar gyfer y swydd hon, mae'r gofyniad o ran y Gymraeg wedi'i osod ar lefel 2, ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u rhestru isod.

| **Maes Sgil** | **Gofynion Safonnau'r Iaith Gymraeg** |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | • Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith.<br>• Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion.<br>• Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd.<br>• Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio. |
| **Darllen** | • Ddeall gwybodaeth ffeithiol ac arferol a chynnwys gwybodaeth anarferol ar faterion ymwneud â'ch maes gwaith, e.e. mewn llythyrau safonol, pamffledi. |
| **Ysgrifennu** | • Ysgrifennu nodiadau syml, cofnodi gwybodaeth syml ar ystod eithaf cyfyng o faterion yn ymwneud â'ch profiadau personol neu o fewn eich maes gwaith. |

# Llinell Amser Recriwtio

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cau: | 12:00 canol dydd, dydd Mercher 22 Hydref 2025 |

# Sut i Wneud Cais

I wneud cais am y swydd hon, rhaid i bob ymgeisydd lenwi ein ffurflen gais er mwyn cael eu hystyried. Mae'r ffurflen gais i'w chael ar y dudalen Swyddi Gwag Presennol ar ein gwefan. Dylid cyflwyno ffurflenni wedi'u llenwi drwy e-bost at recrwitio@tangogleddcymru.llyw.cymru

Peidiwch â chyflwyno'ch CV gyda'r Ffurflen Gais, gan mai dim ond yr wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei defnyddio ar y cam llunio rhestr fer.

Wrth gwblhau eich cais, ymgyfarwyddwch â'r disgrifiad swydd a manyleb y person yn y pecyn gwybodaeth hwn fel eich bod yn deall y cymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Mae p'un ai fyddwch chi'n cael eich rhoi ar restr fer am gyfweliad ai peidio yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwch yn eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn digon o amser os hoffech i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol ar eich cyfer.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais cyn y dyddiad cau gan na fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os ydych yn cael unrhyw broblem wrth gael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recrwitio@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn gwneud cais, ffoniwch Tim Christensen ar (01745) 352 689.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac yn annog ceisiadau gan unigolion beth bynnag eu sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau ac yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.